


# 2022-2023

# Adroddiad Sefydliadol #16

## Y cyfnod dan sylw: 1 Ionawr – 31 Mawrth 2023

Llun: Y gynulleidfa'n mwynhau darlleniad gan clare e potter yn nigwyddiad Dihuno'r Dychymyg

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Cynnwys


**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Chipolygon**

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol 3

Uchafbwyntiau chwarter tri 4

Sbotolau'r Gweithgaredd: Cwrs Egin Awduron 6

Ein lle yn y sector 7

Diweddariad Tŷ Newydd 8

**Ein heffaith:**

Uchafbwynt wrth gyflawni nod: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb 9

**Cynnydd yn erbyn ein targedau**

Cyngor Celfyddydau Cymru 2022-23 11

Targedau Gweithredol 18

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 20**

**Uchafbwyntiau a diweddariadau Polisi 21**

**Gwersi i'w Dysgu**

Gweithgaredd a Gweithredol 22


## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido CCC** a'n **gofynion adrodd mewnol** sy'n manylu ar yr effaith y gobeithiwn ei chael, ynghyd â'n **Gwersi i'w Dysgu.**

Dim ond cipolwg o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni y mae targedau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Mae gennym yn ogystal broses Monitro Effaith drylwyr sy'n dangos sut mae ein holl raglenni'n cyfrannu at ein 7 Nod. Ym mhob Adroddiad fel yr un yma, byddwn yn amlygu un nod ar gyfer y chwarter ac yn adrodd yn fanylach ar yr ystadegau a'r straeon yr ydym wedi'u casglu.

Mae gennym hefyd ystod eang o dargedau gweithredol ar gyfer 2022-25. Ynghlwm wrth ein cynllun strategol mae llawer o gynlluniau gweithredol yn cynnwys Codi Arian, Adnoddau Dynol, Partneriaethau a Chymynroddion, Cynaladwyedd, Cyllid, EDI a Chyfathrebu. O fewn y rhain mae nodau SMART ar gyfer pob blwyddyn. Rydym yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn chwarterol ac ym mhob Adroddiad Sefydliadol bydd trosolwg o'r cynnydd allweddol a wnaed / terfynau amser a gollwyd yn y chwarter.

# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol

Fel cynifer o'n cydweithwyr a'n cyfeillion ym myd y celfyddydau, buon ni'n gwneud gwaith cynllunio a datblygu dwys yn ystod y chwarter hwn er mwyn cyflwyno ein cais i Adolygiad Buddsoddi Cyngor y Celfyddydau erbyn 31 Mawrth. Cais oedd hwn am gyllid i'r sefydliad yn ystod 2024-27. Fe wnaeth holl dîm Llenyddiaeth Cymru fwynhau'r gwaith o gynllunio at y dyfodol, ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn arw at roi'r cynlluniau hynny ar waith.

Fis Ionawr hefyd, ddydd Santes Dwynen, lansiwyd rhaglen gyrsiau Tŷ Newydd am y flwyddyn. Yn benllanw misoedd o waith curadu, mae'r rhaglen yn cyflwyno ein cyrsiau wythnos a phenwythnos sy'n canolbwyntio ar wahanol genres a themâu. Mae'r cyrsiau hynny yng ngofal dros 60 o diwtoriaid a darllenwyr gwadd, gan gynnwys rhai o awduron a hwyluswyr gorau Cymru (a'r byd!).

Fis Chwefror, ddydd Sain Ffolant, cynhaliwyd yr ail o nifer o arddangosfeydd y byddwn ni'n eu trefnu yn y Senedd dros y tair blynedd nesaf. Daeth dros 100 o westeion ynghyd wyneb yn wyneb ac ar-lein i fwynhau digwyddiad Dihuno'r Dychymyg: Barddoniaeth yn y Senedd, a noddwyd gan Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip. Roedd y cerddi'n trin a thrafod pynciau amrywiol, yn cynnwys dygymod â galar, goresgyn trawma, meithrin hunanhyder a byw â dementia, a'r cyfranwyr yn cynnwys Rufus Mufasa, clare e potter, Duke Al Durham, Esyllt Maelor a Patrick Jones. Soniodd pob un ohonyn nhw am sut roedd ysgrifennu wedi bod yn broses iacháu iddyn nhw'u hunain ac i bobl eraill, a hynny mewn gweithdai a chyrsiau a drefnwyd gan Lenyddiaeth Cymru.

Fis Mawrth, dathlwyd camp grŵp o awduron Cynrychioli Cymru 2022-2023, ynghyd â llwyddiant cynyddol y rhaglen datblygu awduron hon. Daeth yr awduron, y mentoriaid ac aelodau'r staff ynghyd ar-lein i fwynhau darlleniadau o waith yr awduron ac i glywed am brofiadau pawb. Cynhaliwyd ymgyrch i ddathlu ar-lein hefyd er mwyn rhannu llwyddiannau'r awduron â'r byd. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gyhoeddi enwau'r grŵp newydd o awduron fis Ebrill, wrth i ni gamu i'r gwanwyn gyda llond trol o gyfleoedd a chyhoeddiadau cyffrous.

**Claire Furlong,** Executive Director
**Leusa Llewelyn**, Artistic Director



**Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau

- Fis Ionawr, fe ddechreuon ni chwilio am feirdd newydd ar gyfer swyddi Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate rhwng 2023 a 2025. Byddan nhw'n camu i esgidiau Casi Wyn, y Bardd Plant presennol, a Connor Allen, y Children's Laureate presennol.
- Parhaodd ysgolion i fwynhau gweithdai, gyda 50% o'r gost wedi'i ariannu'n barod, gan awduron fel Krystal Lowe, Phil Okwedy ac Alex Wharton, a hynny fel rhan o brosiect Cymru Ni. Mae mwy o wybodaeth am yr awduron ar dudalen y prosiect fan hyn.
- Lansiodd Tŷ Newydd raglen gyrsiau 2023 sy'n cynnwys dros 60 o awduron a fydd yn cynnal cyrsiau sy'n adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol. Fis Gorffennaf, er enghraifft, byddwn ni'n croesawu Andrew McMillan ac Okechukwu Nzelu a fydd yn tiwtora cwrs wythnos sy'n pontio genres o'r enw 'Ysgrifennu am Gariad Cwiar'.
- Gyda nawdd Llywodraeth Cymru, cynhaliodd Llenyddiaeth Cymru noson i ddangos sut mae barddoniaeth yn gallu hybu iechyd a llesiant, sef Dihuno'r Dychymyg.
- Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Seren Haf Grime, un o awduron llwyddiannus gwaith comisiwn i awduron, flodeugerdd o waith o'r enw *Staying Alive: A Book of Hope*. Gwaith oedd hwn a ddatblygwyd gyda menywod o dan 50 oed sy'n byw â chanser eilaidd, mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru.
- I ddathlu Diwrnod Llyfr y Byd, cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru enwau'r panel a fydd yn beirniadu Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn 2023, sy'n cynnwys awduron fel Ceri Wyn Jones ac Emily Burnett o grŵp Cynrychioli Cymru 2.
- Parhaodd gweithgarwch yn ystod Chwarter 4 ar y prosiect Darn wrth Ddarn, sy'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â Mind Casnewydd. Creodd yr ymarferwyr creadigol, Bill Taylor-Beales ac Uschi Turoczy, waith trawiadol tu hwnt gyda phobl ifanc yng Nghanolfan Mileniwm Pill.
- Trefnwyd ymgyrch wythnos o hyd i ddathlu ail grŵp o awduron Cynrychioli Cymru cyn croesawu'r trydydd grŵp yn Chwarter 1, gyda'r nod o ddatblygu awduron sy'n creu llenyddiaeth i blant ac oedolion ifanc.
- Arweiniodd Patrick Jones y prosiect **Geiriau er Llesiant** yn ystod Chwarter 4, mewn partneriaeth â Gwirfoddolwyr Rhisga a Libanus Lifestyle.

## Gweithrediadau

- Yn Chwarter 4, dechreuodd y broses gyfweld i benodi rhagor o Ymddiriedolwyr a Dirprwy Gadeirydd i Fwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru, gyda dau'n ymuno yng nghyfarfod mis Chwefror, a phedwar arall i ymuno ym mis Mai 2023.
- Fis Ionawr, anfonwyd yr Arolwg Rhanddeiliaid at dros 800 o unigolion.
- Cafodd yr holl bolisïau mewnol eu diweddaru ac ymgyfarwyddodd y staff â'r newidiadau cyn y flwyddyn ariannol newydd.
- Mwynhaodd y staff amrywiaeth o gyflwyniadau creadigol fel rhan o'n cyfarfodydd tîm bob pythefnos, gan rannu gwersi i'w dysgu drwy'r holl sefydliad.
- Mae'r holl dîm wedi cwblhau'r flwyddyn gyntaf yn defnyddio'r system newydd i gynllunio prosiectau, ac wedi bwydo'r holl ystadegau i arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 22/23.
- Cwblhawyd creu rhagolygon manwl ar gyfer 23/24, a dechreuwyd prosesau ariannol diwedd y flwyddyn.
- Cwblhaodd yr holl aelodau o staff eu Hadolygiadau o Ddatblygiad Proffesiynol, gan alluogi'r holl weithwyr i greu Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y flwyddyn, er mwyn llywio a thracio'u cynnydd.
- Cyflwynodd yr Uwch Dîm Arwain system newydd ar gyfer adolygu'r gofrestr risgiau bob wythnos, gan sicrhau eu bod nhw'n berthnasol a bod tactegau lliniaru addas ar waith.
- Ar ôl cryn dorchi llewys drwy'r sefydliad, cyflwynwyd dogfen yr Adolygiad Buddsoddi i Gyngor Celfyddydau Cymru.




Fis Ionawr, agorodd y broses ymgeisio i ddod o hyd i'n Bardd Plant Cymru a'n Children's Laureate Wales newydd ar gyfer 2023-2025




Lansiwyd rhaglen o gyrsiau creadigol Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ar gyfer 2023



Fis Chwefror, fe wnaethon ni fwynhau perfformiadau barddoniaeth ar thema Iechyd a Llesiant yn y Senedd



Cyhoeddwyd enwau beirniaid Gwobr Llyfr y Flwyddyn




Rhyddhawyd ffilm farddoniaeth i ddathlu cyfraniad Raymond Williams at lenyddiaeth Cymru



Bu artistiaid yn rhannu eu profiadau o greu murlun fel rhan o brosiect Darn wrth Ddarn Casnewydd



Mwynhaodd y gymuned a phartneriaid ddigwyddiad rhannu 'Gwledda' fis Mawrth fel rhan o brosiect Llên mewn Lle




Fis Mawrth, perfformiodd Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru, gyda Simon Armitage yn Llyfrgell Gladstone



Darren Chetty ac Iestyn Tyne yn tiwtora egin awduron ar gwrs (Ail)Sgwennu Cymru

## Sbotolau’r Gweithgaredd: (Ail)Sgwennu Cymru






Y grŵp o egin awduron ar ôl eu digwyddiad i rannu’u gwaith yn y llyfrgell yn Nhŷ Newydd

- Teimlai **79%** o’r cyfranogwyr fod eu crefft wedi gwella yn sgil y cwrs
- Cynyddodd hyder y grŵp o awduron wrth ysgrifennu gwaith ffeithiol-greadigol o **60%** cyn y cwrs i **77%** ar ei ddiwedd
- Dywedodd **100%** o’r cyfranogwyr fod y cwrs wedi’i drefnu’n dda, chytunai **71%** yn gryf eu bod nhw wedi meithrin gwell dealltwriaeth o sut i ddatblygu eu gyrfaoedd ysgrifennu ar y cwrs (gyda’r **29%** arall yn lled-gytuno)
- Roedd **93%** yn cytuno’n gryf eu bod nhw wedi creu cysylltiadau gwerthfawr ag awduron eraill drwy’r cwrs hwn

Yn ogystal â’r rhaglen o gyrsiau masnachol yn Nhŷ Newydd, rydyn ni’n cynnal nifer o gyrsiau strategol rhad ac am ddim yn y ganolfan bob blwyddyn. Yn aml mewn partneriaeth â’r diwydiant cyhoeddi, byddwn ni’n rhoi sylw i fylchau yn niwylliant llenyddol Cymru o ran amrywiaeth, themâu, genres a rhagor. Fis Mawrth eleni, yn dilyn proses ymgeisio gystadleuol, daeth 14 o egin awduron o Gymru, o amrywiaeth eang o gefndiroedd, ar gwrs ysgrifennu ffeithiol-greadigol wythnos o hyd dan arweiniad y tiwtoriaid Darren Chetty a Iestyn Tyne. Ymunodd nifer o ddarllenwyr gwadd â’r grŵp, gan gynnwys Mike Parker, Hanan Issa a Grug Muse, ynghyd ag Arwel Jones o’r Cyngor Llyfrau ac Emma Schofield o’r Wales Arts Review, er mwyn trin a thrafod themâu’n ymwneud â hunaniaeth a Chymreictod. Cymerodd yr awduron ran mewn gweithdai, trafodaethau, tiwtorialau un-i-un, a digwyddiadau gyda’r siaradwyr gwadd, a’r cyfan er mwyn datblygu eu crefft a’u dealltwriaeth o’r byd cyhoeddi. Mewn partneriaeth â’r Wales Arts Review, yn yr wythnosau sy’n dilyn y cwrs, mae’r grŵp o awduron wedi cael gwahoddiad i gyflwyno’u hysgrifau am Gymru a hunaniaeth i’w hystyried i gael eu cyhoeddi ar eu platfform poblogaidd.

**Wrth gyrraedd Tŷ Newydd roeddwn ni’n teimlo...**




**Mae fy wythnos yn Nhŷ Newydd wedi gwneud i mi deimlo...**




*Nid yn unig y mae treulio amser yn Nhŷ Newydd fel rhan o grŵp o egin awduron (Ail)Sgwennu Cymru wedi rhoi criw o ffrindiau newydd sy’n awduron i mi, mae wedi rhoi hyder i mi ehangu fy ysgrifennu ffeithiol-greadigol a gweld gwerth yn y pethau sydd gen i i’w dweud.*

*Mae’n wythnos sydd wedi fy ysgogi ac wedi rhoi hwb i fy hyder. Amgylchedd ysbrydoledig tu hwnt, lle gallwch chi brosesu, tyfu a datblygu eich sgiliau yn ogystal â’ch cymeriad.*

*Mae (Ail)Sgwennu Cymru wedi fy annog i edrych ar gymhlethdodau Cymreictod a ffurf yr ysgrif, i drafod beth sydd ar goll mewn ysgrifennu ar hyn o bryd, ac i ddefnyddio fy mhrofiadau bywyd i helpu i ysgrifennu am Gymreictod mwy cynhwysol.*

**– Cyfranogwyr y Cwrs**

# Ein lle yn y Sector

Mae holl staff Llenyddiaeth Cymru yn ymwneud yn helaeth â gwaith i hwyluso gweithgareddau drwy'r sector, boed hynny drwy ateb ymholiadau gan awduron neu drwy roi cyflwyniadau mewn digwyddiadau cyhoeddus o bwys. Mae'r canlynol ymhlith uchafbwyntiau'r chwarter diwethaf:

- Awduron wrth eu Gwaith – dan arweiniad Leusa, mae nifer o aelodau'r tîm wedi helpu Gŵyl y Gelli i ail-lansio eu cyfle hynod o boblogaidd, Awduron wrth eu Gwaith. Rydyn ni wedi helpu i lunio cais llwyddiannus i Gyngor Celfyddydau Cymru, ac rydyn ni bellach yn eu harwain drwy'r broses o alw am gyfranogwyr a'r broses ddethol.
- Encilion Tŷ Newydd – Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni wedi helpu Grŵp Consortiwm y Gymraeg Cyngor y Celfyddydau a'r Urdd i ddatblygu encilion i'w cynnal yn Llanystumdwy, gan greu cysylltiadau rhwng ein timau a sicrhau bod Tŷ Newydd yn cael ei weld fel lle sy'n ganolog i fywyd diwylliannol Cymru.
- Rydyn ni wedi rhoi cymorth a chyngor i sefydliadau gan gynnwys: ArtWorks, Celfyddydau Anabledd Cymru, S4C, y Rhwydwaith Dyslecsia a'r Celfyddydau, Petra Publishing ac Inclusive Journalism wrth iddyn nhw ddatblygu rhaglenni sy'n gysylltiedig â llenyddiaeth a/neu ein tair blaenoriaeth.
- Buon ni'n cynorthwyo i ddod o hyd i egin awduron, yn ogystal â'u hariannu, i gyd-greu cynhyrchiad amlddisgyblaethol drwy'r Eisteddfod Genedlaethol a Frân Wen. Fe wnaeth hynny ddwyn ffrwyth o'r diwedd ar ôl saib yn sgil Covid, gyda Popeth ar y Ddaear yn cael ei gyhoeddi fel profiad artistig blaengar ym Maes B yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ym mis Awst 2023.
- Y tu hwnt i'n cymorth i sefydliadau drwy'r gronfa Ysbrydoli Cymunedau, mae Llenyddiaeth Cymru unwaith eto wedi helpu i noddi cystadlaethau cenedlaethol yng Nghymru eleni, gan gynnwys Cystadleuaeth Nofel Gyntaf Crime Cymru, y Wales Poetry Award, Gwobr Ysgrifennu Cymreig Newydd y New Welsh Review, a Chystadleuaeth Ffuglen Plant Firefly Press. Mae ein cynigion sy'n rhoi nawdd i bobl aros yn Encil Awduron Nant neu fynd ar gyrsiau yn Nhŷ Newydd fel gwobr yn annog awduron i barhau i gamu ymlaen ar eu siwrneiau ysgrifennu.

Mae'r tîm wedi cyflawni 800 awr o weithgareddau sy'n rhoi cymorth i'r sector yn y flwyddyn ariannol hon, ond mae modd i'r rheini sydd wedi elwa o'n cymorth gyfleu effaith hyn yn well:

*"Mae'r cyfan diolch i Llên Cymru. Fyddwn i fyth wedi gwybod am y cyfle, heb sôn am fod yn ddigon hyderus i wneud cais, heb y cwrs llyfrau i bawb, felly o waelod calon, diolch yn fawr iawn🙏 Rydw i'n wirion bost o hapus 💞💞💞💞"* Gail – ymgeisydd llwyddiannus ar y cwrs Llyfrau i Bawb, ar ôl cysylltu â'r tîm i ofyn am gymorth.

# Diweddariad Tŷ Newydd

Yn chwarter 4, croesawyd dros **142 o westeion** i Dŷ Newydd. Cynhaliwyd un cwrs undydd Cymraeg, gan ddenu **6** o awduron i ddysgu mwy am sut i ysgrifennu i blant a phobl ifanc, yng nghwmni **Bethan Gwanas.** Cynhaliwyd **Encil Ioga'r Gwanwyn** hefyd gyda'r hyfforddwr ioga lleol, Richard Fowler. Roedd y penwythnos yn llwyddiant ysgubol, a rhoddodd y 18 o westeion a oedd yn talu am eu llefydd dipyn o hwb i incwm ein cyrsiau yn chwarter 4.

Cafwyd **7 encil** yn Nant yn ystod chwarter 4. Cyrhaeddodd Nant **gapasiti o 78%** yn ystod chwarter 4 – ond bu'r ymdrech i ddenu awduron i archebu encilion yn ystod misoedd tawelach y gaeaf drachefn yn dalcen caled.

Yn 2023-24, rydyn ni'n datblygu encilion strategol yn Nant, gan gynnig wythnosau tawel neu wythnosau na allwn eu gwerthu i awduron ar incwm isel yn rhad ac am ddim drwy broses gystadleuol.

Dechreuodd gwaith adnewyddu hanfodol ar y Tŷ Haul yn chwarter 4, gyda chadwraethwyr InnerWorld yn gweithio ochr yn ochr â phenseiri PEGWa i ddrafftio rhaglen waith ar gyfer atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw hanfodol ar yr adeilad. Mae gwaith archwilio eisoes wedi'u wneud, a bydd y gwaith yn ailddechrau ym mis Mai, pan fydd gan y ganolfan ei chyfnod nesaf heb westeion.

- Dywedodd **88%** o'r cyfranogwyr fod y cwrs yn Nhŷ Newydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant.
- Yn yr un modd, dywedodd **88%** o'r cyfranogwyr y bydden nhw'n dychwelyd i Dŷ Newydd yn y dyfodol.

- Yn chwarter 4 hefyd, lansiwyd ein rhaglen ddiweddaraf o gyrsiau Tŷ Newydd, a hynny ar gyfer 2023. Mae gan raglen eleni **27 o gyrsiau**, yn amrywio o gyrsiau undydd i gyrsiau penwythnos ac wythnos o hyd. Mae modd gweld y rhaglen lawn fan hyn: [www.tynewydd.cymru](www.tynewydd.cymru)
- Mae archebion ar gyfer ein cyrsiau 2023-24 eisoes wedi cyrraedd 63% o'n targed.

Uchafbwynt wrth gyflawni nod:
**Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb**

Byddwn ni'n cynrychioli amrywiaeth Cymru yn well yn ei llenyddiaeth. Byddwn ni'n parhau i roi pwyslais ar bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn eu gwaith ac sydd wedi wynebu hiliaeth, abledd, gwahaniaethu ac anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol.

## Cynrychioli Cymru 22-23

Gyda nawdd gan y Loteri Genedlaethol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, mae Cynrychioli Cymru yn rhaglen ddatblygu 12 mis i awduron sy'n cael eu tangynrychioli, a dros y flwyddyn ddiwethaf mae wedi datblygu 14 o awduron o gefndir incwm isel.

Ers ein galwad agored ym mis Rhagfyr 2021 – oedd wedi denu 95 o geisiadau – mae'r grŵp wedi mwynhau 9 gweithdy, 8 ystafell ysgrifennu, 4 dosbarth meistr a 70 o sesiynau mentora. Roedd 6 o'r sesiynau hyn yn agored ac yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd, gan gyrraedd a datblygu mwy o awduron.

Treuliodd 7 aelod o'r grŵp 120 awr ar gwrs dysgu Cymraeg hefyd, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac a ariannwyd drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith.

Mae 64% o'r cyfranogwyr wedi cael cynnig comisiynau neu gyfleoedd ysgrifennu o ganlyniad i fod yn rhan o'r rhaglen
Mae 90% yn cytuno bod y rhaglen wedi rhoi hwb i'w gyrfaoedd proffesiynol
Mae 100% yn cytuno bod eu dealltwriaeth o'r diwydiant cyhoeddi wedi gwella
Mae 100% yn cytuno bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hysgrifennu creadigol

Fis Mawrth, cymerodd grŵp o awduron Cynrychioli Cymru yr awenau ar ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol, gan rannu gwaith roedden nhw wedi'i ddatblygu dros y flwyddyn ddiwethaf. Dilynwyd hyn gan ddathliad caeëdig i'r grŵp, eu mentoriaid, a staff Llenyddiaeth Cymru. I ddarllen mwy am yr awduron unigol, a'u profiad o'r rhaglen ddatblygu hon, ewch i'n gwefan.



Grŵp o awduron Cynrychioli Cymru #2 yn mwynhau sesiwn yn Nhŷ Newydd

"*Mae'r rhaglen hon wedi gweddnewid fy ysgrifennu, fy hyder a fy mywyd*

- **Ben Huxley**

*Mae'r rhaglen hon wedi agor cynifer o ddrysau i mi... Rydw i'n teimlo bod fy nyfodol i'n ddisglair*

- **Hattie Morrison**"

# Uchafbwynt wrth gyflawni nod: **Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb**

CoDi SOMALI DANCE

## Dawns Somali

Partneriaeth oedd hon rhwng Tŷ Cerdd, Hayaat Women Trust, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a Llenyddiaeth Cymru, gan gynnig llwybr datblygu i artistiaid sydd ag arbenigeddau amrywiol.

Cafodd yr artistiaid a gymerodd ran fwynhau **4** gweithdy, cyn cloi ag arddangosfa i rannu'u gwaith fis Mawrth i gynulleidfa o **120** o unigolion. Roedd **4** o brif artistiaid a **9** o artistiaid cysgodol ymhlith y perfformwyr.

Meddai un o'r partneriaid, Hayaat Women Trust:

> *Mae'r profiad wedi bod yn un anhygoel ac rydw i wedi mwynhau bob munud ohono. Roedd pawb y siaradais i â nhw wedi mwynhau'r digwyddiad, ac roedd gan pawb adborth cadarnhaol i'w roi*

## Cymru Ni

Gyda nawdd Llywodraeth Cymru, buom yn helpu ysgolion i gyflawni'r argymhellion a geir yn adroddiad y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd gan yr Athro Charlotte Williams, a hynny drwy gynnal gweithdai ysgrifennu creadigol dynamig gan awduron o liw yng Nghymru dros dri cham:

Cam 1: Gweithdai am ddim i ysgolion
Cam 2: Gweithdai gyda 50% o'r gost wedi'i hariannu drwy ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau
Cam 3: Adnoddau i athrawon

Cyflwynodd **9** o hwyluswyr o liw **56.5** diwrnod llawn o weithdai i ysgolion ledled Cymru, a chafwyd adborth cadarnhaol:

Teimlai **100%** fod yr ysgol wedi elwa o'r sesiynau creadigol
Teimlai **100%** y gallen nhw gyflwyno rhan o'r sesiwn yn eu cynlluniau gwaith eu hunain
Teimlai **99%** fod llenyddiaeth / ysgrifennu creadigol yn helpu i drafod pynciau mwy cymhleth

Roedd y gweithdai a ariannwyd 50% yn galluogi ysgolion i feithrin perthynas â'r awduron eu hunain, gan arwain at rywfaint o adborth gwych:

> *Roedd cael Krystal yma ... yn gyfle hyfryd. I ni, roedd yn gyfle i'r plant rannu'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw, ystyried eu hanes eu hunain, eu hil a'u hunaniaeth, a mynd ati'n gadarnhaol i greu ymdeimlad o gydlyniant yn ein cymuned.*
>
> \- Pennaeth Ysgol Bryn Celyn

Mae adnoddau i athrawon yn dal i gael eu datblygu yn ystod chwarter 4, a bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn ariannol newydd.


clare e potter a Nia Morais yn hwyluso sesiwn


Duke Al Durham yn hwyluso sesiwn


Myfyrwyr yn mwynhau un o sesiynau Cymru Ni

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Diwylliant Llenyddol Cymru**: Sicrhau mwy o ymgysylltu, gwell hygyrchedd, a mwy o effaith drwy weithgareddau ysgrifennu creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Datblygu partneriaethau gydag o leiaf 3 o grwpiau cymunedol sy'n gweithio gyda grwpiau penodol sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn Niwylliant Llenyddol Cymru. | **Wedi'i gwblhau.** Fel rhan o'n prosiect **Llên mewn Lle**, mae Siôn Tomos Owen yn gweithio gyda chynllun Croeso i'n Coedwig yn Nhreherbert, gan helpu unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl i gysylltu â byd natur. Ac mae Iola Ynyr yn gweithio gyda Ysgol Gynradd Rhosgadfan, yn helpu rhieni o deuluoedd sydd ar incwm isel. Fis Mawrth, perfformiodd **23** o artistiaid mewn arddangosfa yn Butetown fel rhan o'r **Bartneriaeth Dawns Somali**, sydd wedi creu llwybr datblygu drwy gyfres o weithdai i **9** o artistiaid sy'n cymryd rhan. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| **Cynyddu'r canllawiau** sydd ar gael fel rhan o raglen ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau, gan helpu trefnwyr digwyddiadau llenyddol ledled Cymru i ddarparu digwyddiadau cynhwysol a hygyrch. | Yn chwarter 4, newidiwyd ein canllawiau, ac mae diwygiadau'n dal i gael eu gwneud i'r ffurflen gais. Mae disgwyl cwblhau'r gwaith hwn yn ystod chwarter 1 y flwyddyn ariannol newydd. | |
| Hyfforddi mwy o awduron drwy'r rhaglen **Sgyrsiau Creadigol** mewn themâu fel: diogelu, rhannu'r arferion gorau, a sut i ddarparu cyfleoedd llenyddol mewn lleoliadau cyfranogol. | Ers mis Ebrill 2022, mae **9** o Sgyrsiau Creadigol wedi cael eu cynnal, gan gynnwys:<br>• Gweithdai ar-lein cynhwysol gyda **Kittie Belltree** a **Sara Beer**<br>• Gweithdai ysgrifennu creadigol cynhwysol i blant a phobl ifanc gyda **Connor Allen**<br>• Dysgu'r Gynghanedd Mewn Ysgolion gyda **Siw Jones**<br>• Cynrychioli iechyd meddwl yn ddilys mewn cymeriadau ffuglen gyda **Paul Whittaker** a **Tamsin Griffiths**<br>• Creu eich cylchgrawn neu eich llyfr eich hun gyda'r cyhoeddwr **Jannat Ahmed.**<br>Bydd y sgyrsiau creadigol / yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig i awduron yn cael ei ailddatblygu ar ffurf pecyn hyfforddiant i artistiaid yn ystod y flwyddyn ariannol newydd. | |
| Buddsoddi **£45,000** ar raglen sy'n ceisio helpu i ddarparu cwricwlwm amrywiol yng Nghymru, sy'n cynnwys rhoi **£21,000** yn uniongyrchol i awduron o liw. | Mae cyfanswm o **£16,482.84** wedi'i roi'n uniongyrchol i awduron o liw sy'n rhan o'r prosiect hwn. Newidiodd y cynlluniau'n sylweddol o'u cymharu â'r cais gwreiddiol, gyda mwy o bwyslais ar greu adnoddau na gweithdai, a hynny'n golygu bod mwy o'r gyllideb wedi'i gwario ar fideograffwyr ac ati nag ar artistiaid. Roedd cyfanswm o 9 awdur o liw yn rhan o'r prosiect. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

## **Nod: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** : Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

<table>
<tr><th>Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023</th><th>Cynnydd o flwyddyn hyd yma</th><th>Y dull o gasglu data</th></tr>
<tr><td>Sicrhau bod yr holl ddogfennau’n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau hygyrch, gan gynnwys fersiynau sy’n ystyriol o ddyslecsia.</td><td>Yn mynd rhagddo: Mae’r holl alwadau agored cyfredol yn cael eu darparu gyda ffurflen gais sy’n ystyriol o ddyslecsia a ffurflen gais print mawr. Rydyn ni hefyd yn derbyn ceisiadau sain a fideo ar gyfer ein cyfleoedd proffil uchel, fel Bardd Plant Cymru a’r Children’s Laureate. Cafodd y staff hyfforddiant cyfathrebu mewnol er mwyn ysgrifennu copi hygyrch, ac mae’r gwaith yn dal i fynd rhagddo i adolygu ac addasu darpariaethau presennol, fel ein hadnoddau.</td><td rowspan="4">Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff.</td></tr>
<tr><td>Darparu trydedd rownd Cynrychioli Cymru, gan fuddsoddi’n ddwys mewn 14 o awduron, a’r rheini i gyd yn dod o gymunedau sydd wedi’u tangynrychioli.</td><td>Dewisodd y panel asesu annibynnol 14 o awduron sy’n cael eu tangynrychioli. Cafodd pob un o’r 14 eu gwahodd i fynd ati’u hunain i ddisgrifio’u nodweddion oedd wedi’u tangynrychioli, sy’n ddull mwy cynhwysol o ddefnyddio meini prawf ar gyfer bod yn gymwys.</td></tr>
<tr><td>Drwy Cynrychioli Cymru, ymwneud â thua 300 o unigolion fel rhan o’r rhaglen ehangach.</td><td>Heb ei gwblhau. Mae’r sesiynau agored wedi cyrraedd 130 o unigolion. Yn y dyfodol, bydd mwy o sesiynau ar agor i’r cyhoedd, a bydd cynllun marchnata’n cael ei greu i ddenu mwy o gyfranogwyr.</td></tr>
<tr><td>Monitro esblygiad y rhaglen a’i heffaith hirdymor, gan gynnwys ymwneud â’r grwpiau presennol o awduron.</td><td>Mae grŵp o awduron 1 wedi parhau i gael sesiynau mentora ôl-ofal ac wedi cwblhau adroddiadau mentora manwl yn dilyn y sesiynau. Yn sgil capasiti’r staff, ni chysylltwyd ag aelodau grŵp o awduron 1 i wneud gwaith gwerthuso pellach. Mae cynlluniau wedi’u gwneud i gynnal sesiwn i gadw mewn cysylltiad gydag ambell un yn ystod chwarter 2, 2023-34. Yn chwarter 4, cwblhaodd grŵp o awduron 2 eu sesiynau cadw mewn cysylltiad a’u harolygon manwl ar y ddiwedd y flwyddyn, a bydd eu rhaglen ôl-ofal yn dechrau yn y flwyddyn ariannol newydd.  Cafodd y rhaglen ôl-ofal ei chyd-greu â’r grŵp o awduron, ac mae hi wedi’i seilio ar eu hadborth a’u hawgrymiadau nhw. Bydd yn cynnwys dosbarth meistr preswyl arall yn Nhŷ Newydd yn chwarter 3, 2023-24.</td></tr>
</table>

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Y Gymraeg:** Ymrwymo i ddatblygu ac achub ar y cyfleoedd y mae creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cynnig

| Targets for 31 March 2023 | Progress year to date | Method of data capture |
|---|---|---|
| Cyflwyno eich Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i ddiweddaru | Cafodd y cynllun hwn ei **gyflwyno** i Gyngor Celfyddydau Cymru **fis Medi 2022**. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Hwyluso 5 o brosiectau partneriaeth a chyfarfodydd parhaus â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn llenyddiaeth plant yn y Gymraeg | **Wedi'i gwblhau.** Ymhlith rhai uchafbwyntiau mae:<br>Prosiectau partneriaeth<br>• Ymuno â chynhadledd BookTrust Cymru ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a darllen er pleser.<br>• Cynnal y cwrs Stori i Bawb yn Nhŷ Newydd mewn partneriaeth â'r Cyngor Llyfrau<br>• Fel rhan o brosiect Cadw, cyfieithodd Iestyn Tyne gerddi Alex Wharton i'r Gymraeg.<br>• Fel rhan o brosiect Cymru Ni, crëwyd rhestr o destunau Cymraeg gyda Dr Ann Alston i'w defnyddio fel adnoddau i athrawon.<br>Cyfarfodydd â rhanddeiliaid<br>• Cysylltwyd â Bethan Mai, Pennaeth newydd Adran Lyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen y Cyngor Llyfrau<br>• Cynorthwywyd Race Equality First drwy ddarparu rhestr o destunau Cymraeg sy'n cynnwys cymeriadau o liw<br>• Cynorthwywyd Supporting EmpathyLab drwy eu cyflwyno i'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau a Rhestr Awduron Cymru<br>• Dechreuwyd sgwrsio â BookTrust Cymru i weld sut gallwn ni helpu gwaith ein gilydd | |
| Yr holl staff a'r Cyfarwyddwyr i gwblhau cwrs ymwybyddiaeth wedi'i deilwra mewn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. | Fis Chwefror, fe gyhoeddon ni wahoddiad i dendro, gan arwain at gael dau ddatganiad o ansawdd da yn mynegi diddordeb. Comisiynwyd Iaith Cyf i greu a darparu cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a fydd yn cael ei gynnig i'r holl staff a'r ymddiriedolwyr yn chwarter 2, 2023-24. | |
| Meithrin partneriaethau rhyngwladol â gwledydd eraill yr ieithoedd Celtaidd, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon a'r Alban. | Yn y flwyddyn ariannol hon, bu Bardd Plant Cymru, y Children's Laureate ac **Áine Ní Ghlinn**, Bardd na nÓg (Bardd Plant cyntaf Iwerddon sy'n siarad Gwyddeleg) yn rhannu llwyfan yng Ngŵyl y Gelli. Yn ddiweddarach, croesawyd **Áine Ní Ghlinn** i Dŷ Newydd ar gyfer encil farddoniaeth, gan gyfieithu cerddi i'r Gymraeg a Gwyddeleg. Cafodd Ifor ap Glyn, y Bardd Cenedlaethol blaenorol, a Hanan Issa, y Bardd Cenedlaethol presennol, gymorth fis Tachwedd i fynd i ŵyl Push the Boat Out yn yr Alban. Yn chwarter 4, ymddangosodd y Children's Laureate a'r Bardd Plant yn Llyfryn Gŵyl Bologna, a chafodd tîm Cynrychioli Cymru gyfarfod â'r Scottish Books Trust i rannu gwersi sydd wedi'u dysgu am raglenni datblygu awduron tebyg. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Iechyd a Llesiant**: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Ehangu a datblygu ein partneriaethau cryf yn y maes iechyd a llesiant, gan gynnwys gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, y Reading Agency, byrddau iechyd lleol, a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru. | • Bu **Connor Allen**, ein Children's Laureate, yn gweithio mewn partneriaeth â **Choleg Brenhinol y Seiciatryddion** i drafod materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a thechnoleg. Rhyddhawyd fideo wedi'i animeiddio fis Hydref, ar **Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd**.<br>• Daeth prosiect Gwaith Comisiwn i Awduron 4, "Coeden Ysgrifennu", i ben yn chwarter 3, gan gefnogi mamau newydd mewn partneriaeth â **gwasanaeth amenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**.<br>• Mae **2** gynllun llesiant byrrach wedi'u cynllunio yn chwarter 4, rhwng **Valleys Steps**, **Risca Volunteers** a **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.**<br>• Yn chwarter 4, daeth **dau** brosiect Iechyd a Llesiant llai o faint i ben: clare e potter mewn partneriaeth â **Camau'r Cymoedd** a Patrick Jones mewn partneriaeth â **Gwirfoddolwyr Rhisga** a **Libanus Lifestyle**.<br>• Parhaodd gweithdai Darn wrth Ddarn yn chwarter 4, a'r rheini'n cael eu cynnal mewn partneriaeth â **Mind Casnewydd**.<br>• Dechreuodd sgyrsiau â Therapydd Celfyddydau a chydlynydd celfyddydau yn y GIG i ddatblygu cynllun creadigol ar gyfer llesiant. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Datblygu dull strategol o greu partneriaethau cenedlaethol. | Mae'r **Cyfarwyddwr Artistig** a'r **Cyfarwyddwr Gweithredol** yn parhau i gwrdd â rhanddeiliaid a phartneriaid llenyddol, gyda'r nod o fapio'r sector er mwyn rhoi llwybr clir i awduron, cynulleidfaoedd a'r cyhoedd – ac i ddiffinio'n well ein cylchoedd gwaith unigol a dangos sut gellid gweithio mewn partneriaeth. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod:** Yr Argyfwng Hinsawdd: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
| --- | --- | --- |
| Darparu Llên mewn Lle, hyfforddi beirdd lleol i fod yn hwyluswyr llenyddol dawnus. | Mae **dau** hwylusydd wedi cwblhau prosiectau peilot 6 mis yn eu cymunedau. Bu Iola Ynyr yn cynnal **Gwledda** yn **Rhosgadfan**, a chafodd ei mentora gan clare e potter. Bu Siôn Tomos Owen yn cynnal **Ffrwyth ein Tân** yn **Rhondda Cynon Taf**, a chafodd ei fentora gan Grug Muse. Oherwydd i'r artist fynd yn sâl a gan bod amserlenni wedi gwrthdaro, bydd gweithgareddau **LUMIN Syllabus** yn dechrau yn y flwyddyn ariannol newydd. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Canolbwyntio ar greu prosiectau lleol a datblygu cysylltiadau â'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau. | Mae meini prawf y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau yn dal i gael eu datblygu i helpu trefnwyr digwyddiadau lleol i gynnal digwyddiadau mewn ffordd gynhwysol, cynaliadwy ac effeithiol, ac rydyn ni'n dal i flaenoriaethu digwyddiadau sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi cefnogi cwrs ysgrifennu creadigol i ferched o liw rhwng 14 ac 17 oed gyda Nasia Sarwar-Skuse (Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb), wedi rhoi cyllid i'r Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd ym Mhrifysgol Bangor i gynnal sesiwn cwestiwn ac ateb gyda Horatio Clare, gyda'r recordiad yn cael ei ddefnyddio fel adnodd addysgu am flynyddoedd i ddod (Iechyd a Llesiant), ac yn chwarter 4, ar ôl 7 awr o waith cymorth i'r sector, cafodd Empathy Lab gyllid i ddatblygu sgyrsiau rhithwir yn ysgolion Cymru (Cyfranogi). | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

## Mesurau sefydliadol: Adnoddau Dynol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Recriwtio 2 gyfarwyddwr newydd i'r Bwrdd. | Cafwyd **chwech o geisiadau** i fod yn ymddiriedolwyr, a chynhaliwyd y cyfweliadau yn chwarter 4 gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd, y tîm Gweithredol a Chyngor Celfyddydau Cymru. Cafodd chwe chynnig rhagarweiniol eu gwneud. Ymunodd dau aelod newydd yn chwarter 4 a bydd pedwar aelod arall yn cael eu hystyried yng nghyfarfod chwarter 1, 2023-24. | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Yr holl staff ac aelodau'r bwrdd i gael hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth ac ablaeth. | Yn chwarter 3, aeth **2** aelod o staff ar gwrs gwrth-hiliaeth, a hwnnw wedi'i ddarparu gan Celfyddydau a Busnes Cymru a Race Council Cymru. Bu'r holl staff mewn sesiwn ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth yn chwarter 4. Byddwn ni'n edrych ar y posibilrwydd o roi hyfforddiant ym maes ableddiaeth yn 2023-24. | |
| Proses recriwtio'r Prif Weithredwr wedi mynd rhagddi'n llwyddiannus. | **Wedi'i gwblhau** 1 Medi 2022 – penodwyd 2 ymgeisydd, un yn Gyfarwyddwr Artistig a'r llall yn Gyfarwyddwr Gweithredol. | |
| Gweithio i leihau cymudo gan staff ac annog teithio llesol, gan gynnwys gosod pwyntiau gwefru ceir trydan yn Nhŷ Newydd. | Yn mynd rhagddo – Y cynllun seiclo i'r gwaith wedi'i gyflwyno, gyda **dau** aelod o staff yn manteisio arno. Mae **Grant gan y Llywodraeth** (a fydd yn talu'n rhannol am osod man gwefru cerbydau trydan) wedi cael ei roi. Mae tri chontractwr trydanol wedi ymweld â'r safle i asesu ymarferoldeb gosod man gwefru i gerbydau trydan. Oherwydd adeiladwaith Tŷ Newydd a natur y tir o'i amgylch, byddai'n anodd iawn ac yn ddrud iawn gosod man gwefru i gerbydau trydan. Nid oedd cyllid ar gael yn y flwyddyn ariannol hon i gyfiawnhau cost o'r fath. Mae'r gost wedi'i rhoi yn rhagolygon cyllideb 2023/24. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

## Targedau Ychwanegol

| | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| **Codi Arian** | Datblygu polisi ynghylch codi arian yn foesegol (arian sy'n dod i mewn ac yn mynd allan). | Wedi'i gwblhau. Ar **24 Awst**, cynhaliwyd sesiwn a ariannwyd drwy gynllun **Prosper Celfyddydau a Busnes Cymru**, gan fynd i'r afael â chodi arian yn foesegol. Yn dilyn hyn, rydyn ni wedi creu dogfen gyhoeddus, **Ein Haddewid**, ynghyd â phroses fewnol ar gyfer asesu ffynonellau codi arian. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| **Gweithredol** | Cyflwyno'r gronfa ddata fewnol, newydd o awduron gan dracio data am gyfleoedd cyfartal sydd wedi'u rhoi gan yr awduron eu hunain ynghyd â gwybodaeth am arbenigeddau a nodau gyrfa'r dyfodol er mwyn galluogi Llenyddiaeth Cymru i ganfod cyfleoedd addas i awduron yn well, gan ddefnyddio iaith bersonol. | Treialwyd proses lle cynhaliwyd casgliad gan yr ymgeiswyr aflwyddiannus am swydd y Bardd Cenedlaethol, gan arwain at **ddau** ymateb. Yn chwarter 3, rhannwyd y cyfle hwn â **592** o awduron, gan arwain at **27** o ymatebion. Mae'r gwaith yn parhau i wreiddio hyn yn yr holl alwadau newydd agored/caeëdig. | |

# Targedau Gweithredol

## Uchafbwyntiau Chwarter 4

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Sefydlwyd pwyllgor llywio o awduron sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector cyhoeddi i ddeall yn well pa ymyriadau y mae angen eu cyflwyno. | Bydd y gwaith hwn bellach yn cael ei wneud ym mis Ebrill 2023 – gydag wyth o awduron a oedd yn rhan o brosiect **Cymru Ni.** Bydd y sesiwn gyntaf yn edrych ar y gwersi i'w dysgu o'r prosiect penodol hwnnw, ac yn cynnwys trafodaeth am sut gallai Llenyddiaeth Cymru weithio gydag ysgolion yn y dyfodol i roi sylw i'r argymhellion a amlinellir yn adroddiad Cynefin dan arweiniad yr Athro Charlotte Williams OBE. | Cofnodion prosiectau |
| Bydd y Tîm Creadigol yn cefnogi 10 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid allanol, a hynny mewn capasiti ymgynghorol. | Cyrhaeddwyd a chwblhawyd y nod hwn. Ymhlith y prosiectau y mae Ar y Dibyn (dan arweiniad y Theatr Genedlaethol); Rhwydwaith a'r Celfyddydau yng Nghymru; Gair Mewn Gwlân (dan arweiniad yr Eisteddfod Genedlaethol); rhaglen LOYALTY Connor Allen drwy Jerwood Arts; ac Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli a drefnir mewn partneriaeth â Gŵyl y Gelli. | Cofnodion prosiectau |
| Mae 100% o'r staff wedi mynychu o leiaf 3 sesiwn hyfforddiant i dimau amrywiol | Yn ystod y flwyddyn, mynychodd yr holl staff o leiaf **saith** o sesiynau i dimau amrywiol, gan gynnwys codi arian yn foesegol, y gwahaniaeth rhwng rheoli prosiectau a rheoli llinell, cyfathrebu creadigol mewnol dan arweiniad ein Harweinydd Cyfathrebu, a diwrnod cwrdd i ffwrdd i staff yn Nhŷ Newydd. Bu rhai o'r staff yn bresennol mewn sesiynau eraill hefyd, gan gynnwys Hyfforddiant Cymorth Cyntaf. | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Sicrhau bod ein fideo sy'n rhoi cyflwyniad i'r Cynllun Strategol wedi'i weld 3,000 o weithiau. | Ar 31 Mawrth, roedd y fideo sy'n rhoi cyflwynid i'r Cynllun Strategol wedi'i weld 5,177 o weithiau ar YouTube, Instagram, Facebook a Twitter | Google analytics |

# Targedau Gweithredol

## Targedau a fethwyd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Codi £35,000 drwy Ymddiriedolaethau a Sefydliadau | Codwyd £15,000 y flwyddyn am ddwy flynedd drwy Sefydliad Garfield Weston ar ddechrau'r flwyddyn. Gwnaed 14 o geisiadau eraill i Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, gan gynnwys 10 a baratowyd gan Cause4, ond cafodd y rhain i gyd eu gwrthod. I wella ein dulliau o godi arian a sicrhau ein bod yn cyrraedd targedau'r dyfodol, bydd Codwr Arian yn cael ei benodi yn 2023-24. | Trefniadau ariannu |
| Cynnal arolwg rhanddeiliaid blynyddol, gyda dros 200 yn ymateb. | Anfonwyd yr arolwg rhanddeiliaid ym mis Ionawr at 839 o unigolion, gan arwain at 56 o ymatebion, sy'n sylweddol is na'r targed o 200. Mae hyn yn rhannol gan na chafodd yr arolwg ei rannu'n gyhoeddus; yn hytrach, targedwyd unigolion rydyn ni wedi cyfathrebu â nhw o'r blaen. Arweiniodd hyn at ymatebion perthnasol a oedd i gyd o ansawdd da, a'r rheini'n cynnwys adborth defnyddiol. | Ymatebion i'r arolwg |
| Datblygu Cynulleidfaoedd: O leiaf 10% o'r unigolion sy'n ymateb i'n galwadau, cyfleoedd a chyrsiau yn gwneud hynny am y tro cyntaf. | Dydyn ni ddim yn casglu data ar hyn o bryd am % y rheini sy'n ymateb am y tro cyntaf, sy'n golygu na allwn roi adroddiad hyderus am y targed hwn eleni. Byddwn ni'n datblygu dull o gasglu'r wybodaeth hon ar gyfer galwadau priodol, ac yn cadw golwg ar ein cynnydd tuag at y nod hwn fel rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar ein Cynllun Datblygu Cynulleidfaoedd. | Ffurflenni monitro |

# Cynnydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Daeth nifer o brosiectau i ben yn y chwarter hwn, gan gynnwys ail rownd Cynrychioli Cymru, ein rhaglen ddwys i ddatblygu awduron sy'n ceisio hybu llais awduron sy'n cael eu tangynrychioli yng Nghymru. Yn y digwyddiad i ddathlu fis Mawrth, darllenodd yr 14 awdur ddarn o'u gwaith a sgwrsio am eu siwrneiau ar y rhaglen, tra siaradodd eu mentoriaid personol hefyd am eu profiadau'n gweithio gyda'r grŵp talentog o awduron. Yn y chwarter hwn, mae'r awduron wedi'u dewis hefyd ar gyfer y drydedd rownd, yn dilyn proses ymgeisio a oedd yn galluogi'r ymgeiswyr i fynd ati'u hunain i ddisgrifio sut maen nhw'n cael eu tangynrychioli yn niwylliant llenyddol Cymru. Bydd gwybodaeth am rownd Cynrychioli Cymru #3 yn yr adroddiad sefydliadol nesaf, yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Ebrill.

Daeth nifer o'n prosiectau Iechyd a Llesiant hefyd i ben. Ym mis Chwefror, lansiwyd y flodeugerdd, *Staying Alive: A Book of Hope* yn Hosbis Dewi Sant, Casnewydd: casgliad o ddarnau wedi'u hysgrifennu gan fenywod ifanc sy'n byw â chanser – menywod sy'n aml yn gorfod cydbwyso magu teuluoedd ifanc, gofalu am eu cartrefi a'u perthnasau, gan gael triniaethau am eu cyflyrau ar yr un pryd. Dan arweiniad yr awdur Seren Haf Grime, fe wnaeth y prosiect fwrw goleuni ar yr anghydraddoldebau y mae menywod yn aml yn eu hwynebu. Dilynodd y lansiad ddigwyddiad arall a gynhaliwyd yn Llanelli fis Ionawr, dan arweiniad Rufus Mufasa, a hwnnw'n nodi diwedd prosiect a ddathlodd waith mamau yn ystod y pandemig. Gan weithio gyda Plant Dewi, gyda chymorth People Speak Up, prosiect oedd hwn a oedd yn rhoi sylw i rai o "arwresau coll y pandemig", gan anrhydeddu a dathlu gwaith mamau a hybu gwydnwch y cyfranogwyr drwy greadigrwydd.

Ymunodd Connor Allen, y Children's Laureate Wales, â'r awdur Duke Al Durham i arwain cyfres o weithdai barddoniaeth a edrychai ar themâu cymuned, cysylltiad a hunaniaeth yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl Plant. Dros bedwar diwrnod o weithdai, cymerodd 60 o blant ran, a bydd y cerddi a gafodd eu creu yn cael eu defnyddio gan Unify, y gydweithfa o artistiaid, i greu murlun yn adeilad newydd Ysgol Uwchradd Fitzalan. Roedd Unify hefyd yn bresennol yn y gweithdai barddoniaeth i sicrhau y byddai llais y plant yn cael ei drosi'n uniongyrchol i'r gwaith celf.

*"Fe wnes i ddysgu cymaint amdana' i fy hun ar y siwrnai greadigol hon gyda Llenyddiaeth Cymru a People Speak Up. Dyma'r unig dro i mi rannu'n agored fy mhrofiad fel menyw a rhiant, yn enwedig yn ystod y pandemig. Doedd neb wedi hyd yn oed gofyn sut beth oedd y profiad hwnnw cynt. Mae adrodd straeon, eu prosesu nhw fel barddoniaeth a rhyddiaith, a'u trafod a gweithio arnyn nhw gyda Rufus wedi bod yn rhan anferthol o fy mhroses iacháu bersonol, nid yn unig yn dilyn trawma torfol y pandemig, ond hefyd y trawma o fod yn fam."*

**– Cyfranogwr ym mhrosiect O Mam Fach Rufus Mufasa**

*"Profiad ysbrydoledig a difyr, ac agoriad llygad go iawn."*

**– Athro yn Ysgol Gynradd Kitchener**

# Uchafbwyntiau a diweddariadau Polisi

## Cynnydd chwarter 4

Yn ôl amcangyfrifon y staff ynghylch eu harferion cymudo yn yr arolwg staff diweddaraf, dim ond 18% o'r teithiau cymudo posibl a wnaed mewn ceir yn ystod ail hanner eleni, sy'n rhagori ar ein targed, sef 25%. Gwnaed 16% o'r teithiau cymudo posibl drwy ddulliau teithio llesol, 7 % drwy drafnidiaeth gyhoeddus, a 5% drwy rannu ceir.

Yn ôl yr un arolwg, roedd 89% o'r staff wastad neu bron wastad yn cofio diffodd eitemau trydanol pan na fydden nhw'n cael eu defnyddio, ac roedd 11% yn gwneud hynny gan amlaf. Roedd 66% o'r staff wastad yn gofalu eu bod nhw'n ailgylchu'n gywir, a 33% yn gwneud ceisio gwneud hynny gan amlaf.

Mae gwaith ymchwil cychwynnol wedi'i gwblhau i amryw o gynlluniau achredu yn y maes amgylcheddol a niwtraleiddio carbon. Byddwn ni'n edrych ar hyn yn y flwyddyn newydd fel rhan o ddiweddariad sylweddol i'n Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd.

## Chwarter 4 Targedau a fethwyd

Yn ystod y flwyddyn, argraffodd Llenyddiaeth Cymru 12,815 o dudalennau (10,669 yn Nhŷ Newydd a 2,146 yng Nghanolfan Glyn Jones), sy'n sylweddol uwch na'r targed, sef cyfanswm o 2,500 o dudalennau wedi'u hargraffu'n flynyddol gan y staff. Er bod y tudalennau y bydd gwesteion Tŷ Newydd yn eu hargraffu yn cyfrannu at y ffigur hwn, byddwn ni'n edrych ar y rhesymau pam mae'r staff yn parhau i argraffu, ac yn cymryd camau i leihau hynny lle bynnag y bo modd, gan osod targed mwy realistig ar gyfer 2023-24.

Nid yw ein targed wedi'i gyrraedd i annog staff i gymryd pedwar diwrnod o absenoldeb i wirfoddoli. Serch hynny, mae gwaith yn mynd rhagddo i greu system ar gyfer absenoldeb gwirfoddoli, gyda'r nod o rannu'r cyfle gyda'r staff erbyn mis Mai 2023. Bydd hyn yn annog y staff i feddwl am gyfleoedd gwirfoddoli lleol sy'n cyfrannu at ymdrechion ehangach i fod yn gynaliadwy, ac yn cynnwys enghreifftiau o gyfleoedd posibl er mwyn rhoi ysbrydoliaeth.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwersi i'w Dysgu: Gweithgaredd a Gweithredol

| Gweithgaredd | Gwersi i'w Dysgu<br>1 Ionawr – 31 Mawrth 2023 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| **Prosiectau'r Children's Laureate – ond hefyd yn berthnasol i brosiectau eraill** | Drwy wneud iechyd a llesiant yn un o'n blaenoriaethau strategol, bydd gweithdai ar y thema hon – yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc – yn agor y drws i gynnal trafodaethau am bynciau heriol. Dylen ni atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddiogelu ein hwyluswyr, gan ystyried eu hiechyd a'u llesiant eu hunain wrth iddyn nhw wneud y gwaith hwn. | Y tu hwnt i gyfarfodydd un-i-un rheolaidd gyda rheolwyr prosiect a hwyluswyr prosiectau, mae grŵp o staff wrthi'n edrych ar strwythurau mwy ffurfiol i ddiogelu a chefnogi hwyluswyr sy'n delio â thrawma a phynciau anodd mewn gweithdai. |
| **Cynrychioli Cymru – ond hefyd yn berthnasol i baneli asesu allanol** | Wrth iddyn nhw ddewis grŵp o awduron Cynrychioli Cymru #3, fe wnaeth yr arbenigedd, y wybodaeth a'r gofal a ddangosodd ein paneli asesu allanol gryn argraff arnon ni. Gyda'i gilydd, arweiniodd eu profiadau bywyd, eu dealltwriaeth o'r sector a'u brwdfrydedd at ddewis grŵp rhagorol o awduron. | Sicrhau digon o amser a gofal wrth ddewis y paneli allanol gorau posibl, gan wybod y bydd hynny'n talu ar ei ganfed. Sicrhau bod rhoi briffiau llawn a manwl i'r paneli yn rhan o amserlen ac adnoddau'r prosiect. |
| **Bardd Plant Cymru** | Ni chafodd diwrnodau swyddogol o dan y prosiect eu cyflawni, gan fod y Bardd Plant yn rhy brysur ac wedi'i llethu gan waith llawrydd. | Bydd beirdd plant y dyfodol yn cael eu hannog eto i flaenoriaethu diwrnodau swyddogol y swydd, a bydd rheolwr y prosiect yn creu amserlenni gwaith manwl ar ddechrau pob blwyddyn. Bydd contract pendant yn cael ei roi, a chyfeirir at hwn os bydd angen, gan sicrhau bod taliadau'n cael eu rhoi **ar ôl** i'r gweithgaredd gael ei ddarparu. |
| **Llên mewn Lle – ond yn berthnasol hefyd i brosiectau eraill sy'n tracio'r effaith ar iechyd a llesiant** | Fel corff celfyddydol sy'n cynnal prosiectau iechyd a llesiant, mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth am gasglu data yn gyfyngedig, ac felly y dylai hi fod. O bryd i'w gilydd, byddwn ni'n gweithio gydag arbenigwyr iechyd, gan gynnwys Byrddau Iechyd ac elusennau, gan ein galluogi i fanteisio ar eu harbenigedd a'u pecynnau cymorth. | Ystyried a yw ein dulliau o gasglu data a gwybodaeth am ein heffaith yn addas i'r prosiect, e.e. ystyried gofyn i'r cyfranogwyr ddefnyddio geiriau a throsiadau (e.e. "sut mae dy dywydd mewnol di heddiw?") yn hytrach na defnyddio Graddfa Llesiant Meddyliol Warwig-Caeredin. |